# Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol

**5 Rhagfyr 2018**

**Arbed Dyfodol: Y Grŵp Trawsbleidiol ar Rwystro Plant rhag cael eu Cam-drin yn Rhywiol**

## 1. Aelodaeth y Grŵp a deiliaid swyddi

Cadeirydd: Jayne Bryant AC

Aelodau Cynulliad eraill: Llyr Huws-Gryffudd AC, Angela Burns AC, Lynne Neagle AC.

Rhennir y cyfrifoldeb am ysgrifenyddiaeth y grŵp rhwng NSPCC Cymru, Stop it Now! Cymru a Survivors' Trust Cymru.

## 2. Cyfarfodydd blaenorol y Grŵp ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf

### Cyfarfod 1.

***Dyddiad y cyfarfod***:15 Mai 2018

***Yn bresennol:***

Melissa Horrell, Ymgyrchydd, Stop it Now! Cymru
Claire Short, Rheolwr, Stop it Now! Cymru
Cecile Gwilym, Uwch Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus, NSPCC Cymru
Natalie Brimble, Rheolwr Datblygu, Tros Gynnal Plant
Sarah Andrews, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Caryl Tyler, Ymarferydd Gwasanaethau Plant, NSPCC
Rhiannon Topp, Swyddfa John Griffiths AC
Rebecca Parker, Swyddfa John Griffiths AC
Sam Clutton, Uwch-reolwr Polisi, Llywodraeth Cymru
Gill Jones, Cydgysylltydd Gogledd Cymru, Stop it Now! Cymru
David Hopkins, Cadeirydd, Stop it Now! Cymru
Faith McCready, Rhaglen Gyswllt Ysgolion Cymru Gyfan

Jayne Bryant AC, Cadeirydd
Joyce Watson AC
Jan Pickles, Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
Qays Stetkerych, Siarad Da

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd:***

Ffocws y cyfarfod oedd cylch gwaith, rôl, a rhaglen waith y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol. Sefydlwyd y ganolfan â chyllid o'r Swyddfa Gartref, a chaiff ei chynnal gan Barnardo's. Cafodd y rhai a oedd yn bresennol gyfle i ofyn cwestiynau ynghylch gwaith y ganolfan.

## Cyfarfod 2.

***Dyddiad y cyfarfod:*** **9 Hydref 2018**

***Yn bresennol:***

Russell O'Rourke, Heddlu De Cymru
Lawrence Sellek, Heddlu De Cymru
Sadia Ali, EYST
Louise Israel, NSPCC
Jahnine Davis, y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol
Matt Sedgebeer, y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol
Martin Mahoney, Archesgobaeth Caerdydd yr Eglwys Gatholig Rufeinig
Sian Thomas, Arweinydd y Tîm Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Emma Denholm-Hall, Heddlu De Cymru
Miriam Merkova, Cymorth i Ferched Cymru
Martine Dolbear, Prifysgol Met Caerdydd
Boniface Karula, Prifysgol Met Caerdydd
Eluned Meredith, Prifysgol Met Caerdydd
Rhiannon Skuse, Prifysgol Met Caerdydd
Mia Hughes, Prifysgol Met Caerdydd
Natasha Hood, Prifysgol Met Caerdydd
Ellis Dalling, Prifysgol Met Caerdydd
Dan Phillips, Prifysgol Met Caerdydd
Louise Cook, Darlithydd, Prifysgol Met Caerdydd
Nickola Williams, Cymorth i Fenywod Cyfannol
Caroline Saunders, Cymorth i Fenywod Cyfannol
Sangheet Bullar, Wise Kids
Alice Muroriwabo, Tîm Plant Coll Gwent

Rachel Saunders, Tîm Plant Coll Gwent
Hannah Dicks, Heddlu De Cymru
Cecile Gwilym, NSPCC
Claire Short, Stop it Now! Cymru
David Hopkins, Stop it Now! Cymru
Menna Thomas, Barnardo's Cymru
Jayne Bryant AC, Cadeirydd
Mike Hedges AC
Jane Hutt AC
Lee Waters AC

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd:***

Thema'r cyfarfod oedd "Sicrhau amrywiaeth wrth ymateb i achosion o gam-drin plant yn rhywiol: estyn allan i grwpiau cudd sy'n wynebu risg o gamdriniaeth." Trafodwyd tystiolaeth ddiweddar yn ymwneud â rhwystro plant o grwpiau sy'n agored i niwed rhag cael eu cam-drin yn rhywiol, megis plant anabl, plant LGBT, plant duon ac o leiafrifoedd ethnig, a bechgyn.

Mae rhai grwpiau o blant a phobl ifanc yn wynebu risg uwch o gael eu cam-drin: fodd bynnag, mae'r ymchwil hefyd yn dangos eu bod yn llai tebygol o gael eu hamddiffyn fel sydd ei angen a chael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt pan fyddant wedi cael eu cam-drin (Taylor et al, 2014; Allnock et al, 2015). Yn ogystal â hynny, mae diffyg tystiolaeth ynghylch effaith cam-drin plant yn rhywiol ar oroeswyr o'r gymuned ddu a lleiafrifoedd ethnig, LGBT, ac anabl, o gymharu â'u cyfoedion (Independent Inquiry on Child Sexual Abuse, 2017). Yn olaf, mae gwaith ymchwil diweddar gan Barnardo's yn tynnu sylw at brofiadau bechgyn a dynion ifanc sy'n cael eu camdrin yn rhywiol. Mae'r ymchwil yn dangos nad ydynt, yn aml iawn, yn cael eu hadnabod fel dioddefwyr, sy'n golygu nad ydynt yn cael y gefnogaeth sydd wir ei hangen arnynt.

Yn dilyn y newyddion mawr ei groeso fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu creu cynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael â phob math o gam-drin plant, mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar Rwystro Plant rhag cael eu Cam-drin yn Rhywiol (Arbed Dyfodol) yn teimlo ei bod yn hanfodol sicrhau bod y cynllun arfaethedig yn cyrraedd yr holl blant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o gam-drin rhywiol neu sydd wedi dioddef cam-drin rhywiol yn barod.

**<u>Argymhellion allweddol ar gyfer yr ail flwyddyn:</u>**

Roedd y Grŵp Trawsbleidiol ar Rwystro Plant rhag cael eu Cam-drin yn Rhywiol yn falch iawn bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei phenderfyniad i greu cynllun

gweithredu ar gyfer Cymru o ran rhwystro plant rhag cael eu cam-drin, yn dilyn galwadau'r grŵp am hyn a gweithgaredd y grŵp dros y flwyddyn gyntaf.

Mae'r Grŵp yn edrych ymlaen at ymgysylltu ymhellach â Llywodraeth Cymru yn dilyn cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu.

Mae'r Grŵp Trawsbleidiol yn teimlo ei bod yn hanfodol sicrhau bod y cynllun arfaethedig **yn cyrraedd yr holl blant a phobl ifanc** sy'n wynebu risg o gam-drin neu sydd wedi dioddef cam-drin rhywiol. Gwnaed yr argymhellion canlynol yng nghyfarfod y grŵp ym mis Hydref 2018 ynghylch grwpiau sy'n agored i niwed:

- **Mae angen gwneud ymchwil pellach er mwyn ehangu a dwysáu'r sail dystiolaeth i'n helpu i ddeall pa mor agored i niwed yw plant mewn grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd** a sut y gellid eu hamddiffyn.

- **Dylai hyfforddiant ar gyfer arbenigwyr ar y rheng flaen godi ymwybyddiaeth ynghylch achosion o gam-drin plant sydd mewn grwpiau anodd eu cyrraedd** a herio ymagweddau a rhagdybiaethau sy'n rhwystr i'w hamddiffyn.

- Dylai asiantaethau lleol hybu **gwasanaethau diogel a hawdd cael mynediad iddynt ar gyfer plant sydd mewn grwpiau anodd eu cyrraedd.**

- Dylai'r maes dysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a fydd yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r cwricwlwm newydd o 2022 ymlaen **gynnwys codi ymwybyddiaeth plant anabl, LGBTQ a BAME o gam-drin a'u galluogi i ddod o hyd i gefnogaeth os oes ei hangen arnynt. Dylai hefyd herio ystrydebau'n ymwneud â rhywedd** er mwyn galluogi bechgyn i gael mynediad at help os oes ei angen arnynt.

**Cyfarfod 3: Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

*Dyddiad y cyfarfod:* 5 Rhagfyr 2018

*Yn bresennol:* Jayne Bryant AM
Madeleine Rees (Swyddfa Jayne Bryant AC)
Cecile Gwilym (NSPCC)
Claire Short (Stop it Now! Cymru)
David Hopkins (Stop it Now! Cymru)

*Crynodeb o'r materion a drafodwyd:*

Croesawodd Jayne Bryant AC bawb i'r cyfarfod ac agorodd y cyfarfod. Dywedodd ei bod yn dymuno parhau i gadeirio'r Grŵp Trawsbleidiol, a chymeradwywyd hyn gan y rhai a oedd yn bresennol. Yna, awgrymodd bod yr NSPCC, Stop it Now! Cymru a Survivors Trust Cymru yn parhau i rannu cyfrifoldeb am ysgrifennyddiaeth y grŵp, a chymeradwywyd hyn gan y rhai a oedd yn bresennol. Diolchodd y rhai a oedd yn darparu'r ysgrifennyddiaeth am weithio gyda'r Grŵp.

Diolchodd Cecile Gwilym y Cadeirydd am ei chefnogaeth a rhoddodd grynodeb o weithgaredd y Grŵp dros y flwyddyn ddiwethaf. Tynnodd sylw yn arbennig at fwriad Llywodraeth Cymru i greu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Gam-drin Plant, sy'n rhywbeth y mae'r grŵp yn ei groesawu. Mae'r grŵp yn bwriadu gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn llywio cynnwys y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol.

Soniwyd bod angen trafod rhai materion gydag Aelodau Cynulliad perthnasol o wahanol bleidiau yn dilyn dyrannu gwahanol bortffolios cysgodol. Cytunwyd mynd at Helen Mary Jones AC a Janet Finch Saunders AC yn y flwyddyn newydd i'w briffio ynghylch dyheadau'r Grŵp a gofyn iddynt a hoffent ymuno.

Yna, daeth y cyfarfod i ben.

Themâu posibl i'w trafod mewn cyfarfodydd yn 2019:

- Gwanwyn 2019: diweddariad ynghylch diogelwch ar-lein, cymryd stoc ar y Cynllun Gweithredu Diogelwch Ar-lein a Gweithdrefnau Amddiffyn Cymru Gyfan
- Haf 2019: Cymryd stoc ar y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Rwystro Plant Rhag Cael eu Cam-drin
- Hydref 2019: Cyfarfod i gefnogi dioddefwyr
- Rhagfyr 2019: Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

## 3. Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae'r Grŵp wedi cwrdd â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Menna Thomas, Barnardo's Cymru
Matt Sedgebeer, y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol
Sam Clutton, Llywodraeth Cymru
Grŵp Gweithredu Stop it Now! Cymru

Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol ar Rwystro Plant rhag cael eu Cam-drin yn Rhywiol, 5 Rhagfyr 2018

# Datganiad Ariannol Blynyddol

## 5 Rhagfyr 2018

## Y Grŵp Trawsbleidiol ar Rwystro Plant rhag cael eu Cam-drin yn Rhywiol

Cadeirydd: Jayne Bryant AC

Ysgrifenyddiaeth y grŵp: NSPCC Cymru, Stop it Now! Cymru, The Survivors' Trust Cymru.

| | | |
|---|---|---|
| **Treuliau'r Grŵp** | Dim. | £0.00 |
| **Cost yr holl nwyddau** | £271.68: cyfieithiad o'r briff ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed o'r cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Hydref 18. *(taliwyd gan NSPCC Cymru)* | £271.68 |
| **Buddiannau a gafodd y grŵp neu Aelodau unigol gan gyrff allanol** | Ni chafwyd buddiannau. | £0.00 |
| **Unrhyw gymorth ysgrifenyddol neu gymorth arall** | Ni chafwyd cymorth ariannol. | £0.00 |
| **Gwasanaethau a ddarparwyd i'r Grŵp, megis lletygarwch**<br><br>Talwyd am yr holl luniaeth gan NSPCC Cymru, Stop it Now! Wales a Survivors' Trust Cymru. | | |
| **Dyddiad** | **Disgrifiad o'r darparwr a'i enw** | **Cost** |
| | Darparwyd bwffe a lluniaeth ar gyfer digwyddiadau dros yr awr ginio gan Charlton House Catering | £379.44 |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y gost** | **£651.12** |